’WNEWCH CHI OSGOI TYNGED Y BYD HWN?

Nodyn i’r siaradwr:
Anogwch y gynulleidfa i beidio ag anwybyddu’r dystiolaeth diwrthdro fod “dydd mawr yr ARGLWYDD” gerllaw. Cyflëwch daer angen cyfarfod â gofynion Duw i oroesi, ac ysgogwch y gynulleidfa i weithredu

PAM MAE LLAWER YN OFNI’R DYFODOL (5 mun.)

Mae ymosodiad troseddu, camddefnyddio cyffuriau, AID (Afiechyd Imiwnedd Diffygiol), cenedlaetholdeb, casineb hiliol, a’r amgylchfyd dirywiol yn bygwth dyfodol y ddynoliaeth (*g*93 1/8 4-10)

Mae posibilrwydd trychineb niwcliar yn dal yn fygythiad peryglus

Mae’r newyddiadurwr C. Krauthammer yn rhybuddio: “’Dyw diwedd y bygythiad Sofietaidd ddim yn golygu diwedd perygl niwcliar. Y gwir berygl yw lluosogiad, ac mae’r ymledu newydd gychwyn” (*w*94 8/1 3)

Mae miloedd o arfau niwcliar yn bod o hyd (*g*92 3/22 28)

Mae damweiniau adweithyddion niwcliar a phroblem storio gwastraff niwcliar yn fygythiad difrifol i fywyd

Ai difodiad sy’n disgwyl y ddynoliaeth? Beth yw tynged y byd hwn? Os yw tynged y byd hwn yn un trychinebus, ydi dianc yn bosib’?

YR HYN MAE JEHOFAH WEDI’I DDEDDFU AR GYFER Y BYD HWN (5 mun.)

Ni chaniata Duw i’r ddynoliaeth ddarfod (Isa 45:18)

Ond mae Jehofah wedi deddfu dinistr *byd Satan* yn fuan yn “nydd mawr yr ARGLWYDD” (Seff 1:14-18)

Mae Jehofah, Duw cariad, yn goleuo’i bobl ymlaen llaw, a thrwyddynt hwy hysbysir eraill (Eseia 42:9; 61:1, 2)

Felly ’dyw hi ddim yn amhosib’ osgoi distryw (Darllen Salmau 145:20)

PAWB ’NAWR YN CAEL EU DIDOLI AR GYFER DIANC NEU DDISTRYW (12 mun.)

Mae’n ofynnol inni wrando ar rybuddion Ysgrythurol os ydym i fod yn gadwedig yn ystod “dydd yr ARGLWYDD”

Ond pan fo dinistr yn bygwth, mae pobl yn aml yn anwybyddu rhybuddion (*w*86 9/15 3-4; *w*80 12/1 3-4)

Ysgrifennodd Donald Robinson yn ei lyfr *The Face of Disaster:* “Mae adrannau mawr o’r boblogaeth . . . na fedran’ nhw’n syml ddim derbyn y syniad y daw dinistr i’w rhan nhw. Gwyddant fod ffrwydriadau, tanau, tornados, corwyntoedd, llifogydd, gwrthdrawiadau awyrennau a threnau yn digwydd. Gwyddant fod bomiau’n disgyn yn amser rhyfel. Fodd bynnag, fedran’ nhw ddim cyfaddef y bydd trychinebau o’r fath yn cyffwrdd â nhw’n bersonol. Y gall yr anafir nhw neu’r rhai a garant yn erchyll, y’u lleddir nhw. Yr amherir ar eu byd personol nhw am byth. Mae’n rhy ofnadwy i feddwl amdano. Y byddai hynny’n gofyn eu bod nhw’n mabwysiadu set o werthoedd gwahanol, cyfeirdestun cwbl wahanol, ac mae hynny’n fwy nag y gall llawer o bobl ei wneud” (Tudalen 58)

Mae llawer ’nawr nad ydyn’ nhw’n meddwl y daw trychineb i’w rhan nhw ac maen’ nhw’n anfodlon newid, yn union fel na newidiai’r bobl eu dull o fyw er gwaethaf pregethu Noa (Mth 24:37-39)

Anwybyddodd meibion yng nghyfraith Lot y rhybudd am ddiwedd Sodom (Gen 19:14)

Yn y ddau achos, ’roedd peidio ag ystyried rhybuddion a newid yn gwneud dianc yn amhosib’ (2Pedr 2:5-7)

Dihangodd Noa, ei deulu, a Lot a’i ferched drwy wrando rhybuddion ac ufuddhau i Dduw; anufuddhaodd gwraig Lot a marw

Dangosodd Iesu Grist y byddai pobl hefyd yn anwybyddu rhybuddion yn ystod ei bresenoldeb ef (Darllen Luc 17:26-30)

PEIDIWCH AG ANWYBYDDU’R DYSTIOLAETH EGLUR (8 mun.)

’Wnewch chi sylw o dystiolaeth sy’n profi fod Iesu ’nawr yn bresennol fel Brenin a bod “dydd yr ARGLWYDD” yn cyflym agosáu?

Sylwch ar rai nodweddion “arwydd” cyfansawdd presenoldeb Crist (Mth 24:3; darllen Luc 21:10, 11)

Un nodwedd yw rhyfela na fu ei debyg erioed

Bu farw tua 69,000,000 yn Rhyfeloedd Byd I a II; mae miliynau’n rhagor wedi marw mewn rhyfeloedd oddi ar 1945

Nodwedd arall yr “arwydd” yw “daeargrynfâu dirfawr”

Yn ystod y ganrif hon, bu farw cannoedd o filoedd mewn daeargrynfâu (*g*91 8/8 28)

Rhan arall eto o’r “arwydd” yw “plâu”

Bu farw tua 20,000,000 o ‘ffliw Sbaenaidd’ byd-eang 1918-1919; mae afiechydon yn niferus heddiw (*g*94 4/8 31; *w*83 5/1 3-7)

Mae’r prinder bwydydd sy’n llechwraidd gerdded y ddaear yn rhan o’r “arwydd”

Dywed *The World Book Encyclopedia*: “Prin fod gan genhedloedd datblygol Affrica, Asia, ac America Ladin ddigon o fwyd ar gyfer eu pobl. Mae miliynau yn y gwledydd hyn yn newynllyd. Pan fo cynhyrchu bwyd neu mewnforion yn lleihau am unrhyw reswm, gall newyn daro a gall miloedd neu filiynau o bobl farw.”

Un brif nodwedd yr “arwydd” yw pregethu’r newydd da yn fyd-eang (Mth 24:14)

Mae Tystion Jehofah yn gwneud hyn mewn __ o wledydd, ac mae dros ____ o gyhoeddwyr y Deyrnas (Cyfeiriwch at y Blwyddlyfr-*Yearbook*-diweddaraf)

Maen’ nhw hefyd yn rhybuddio am ddydd yr ARGLWYDD gan ddangos y ffordd i oroesi

GOFYNION PERSONOL I DDIANC A GOROESI (12 mun.)

Rhoddodd Iesu gyfarwyddiadau y mae’n rhaid inni wneud sylw ohonynt ’nawr i osgoi trychineb

Rhaid inni gadw’n effro a deisyf (Darllen Luc 21:34-36)

Mae ffoi yn ddiymdroi yn hanfodol pan fo trychineb yn bygwth

Felly, fel y ffôdd canlynwyr Iesu o Jerwsalem, peidiwch â gadael i ddim eich rhwystro rhag ffoi i ddiogelwch ymhlith pobl Jehofah ’nawr (Mth 24:15-18)

Mae eich dihangfa bersonol yn dibynnu ar berthynas ffafriol gyda Jehofah yn seiliedig ar aberth pridwerthol Iesu Grist (Rhuf 3:23-25)

Rhaid dysgu ffyrdd Duw, rhodio’i lwybrau (Eseia 2:2-4)

Ymgysegru i Dduw a bedydd yn hanfodol

Byddwch ar wyliadwriaeth bob amser yn ôl gair Jehofah (Salmau 119:9)

Mae astudio’r Beibl a chyhoeddiadau Cristnogol yn frwdfrydig yn angenrheidiol

Cymdeithaswch â phobl Dduw yn rheolaidd; peidiwch â’ch ynysu’ch hun

Gall cadw hunan ar wahan i bobl Jehofah yn fwriadol arwain at syniadau gwallus, methu â goroesi’r diwedd (Diar 18:1)

Felly, “peidiwch â chadw draw o’r cyfarfodydd” (Heb 10:25, *The Jerusalem Bible*)

Rhaid dangos cariad at Dduw a chymydog trwy bregethu’r newydd da a dysgu eraill am y “gwaredydd” (Salmau 18:1, 2)

GALLWCH CHI FOD YMHLITH Y RHAI SY’N OSGOI TYNGED Y BYD HWN (3 mun.)

Ni chaniata Duw i’r holl ddynoliaeth gael ei difa

Ei fwriad yw daear Baradwys gyda bodau dynol perffaith yn preswylio arni

Bydd pawb nad ydyn’ nhw ddim ar ochr Jehofah yn darfod yn “nydd yr ARGLWYDD” sy’n prysur ddod

Mae pawb ’nawr yn cael eu didoli ar gyfer dinistr neu ddianc

Ystyriwch rybuddion a chynghorion Ysgrythurol a pharatoi i ddianc rhag diwedd y gyfundrefn hon

Os gweithredwch ’nawr â ffydd yn Jehofah, medrwch gael dyfodol disglair gyda’r rheiny sy’n osgoi tynged y byd hwn (Salmau 37:37-40)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. ’Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. ’Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)